

Datganiad Cyfrifon
Blwyddyn wedi Diweddu
31 Mawrth 2015



CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

DATGANIADAU ARIANNOL BLWYDDYN WEDI DIWEDDU 31 MAWRTH 2015

Cynnwys	Tudalen
Aelodau'r Bwrdd ac Ymgynghorwyr Proffesiynol	1
Adroddiad y Bwrdd	2 – 13
Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol	14 – 15
Cyfrif Incwm a Gwariant	16
Datganiad o Gyfanswm Gwargedion neu Ddiffygion Cydnabyddedig	17
Mantolen	18
Datganiad Llif Arian	19 -20
Nodiadau i'r Datganiad Ariannol	21 – 36

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

AELODAU'R BWRDD A CYNGHORWYR PROFFESIYNOL

AELODAU'R BWRDD

Claire Russell Griffiths (Cadeirydd)
Medwyn Hughes (Is-Gadeirydd) (Penodwyd - Hydref 2014)
Margaret Bracegirdle
John Glyn Jones (Ymadawedig – Mai 2015)
Brian Jones (Ymddiswyddodd - Awst 2014)
Anne Lloyd-Jones
Sharon Warnes (Penodwyd - Mehefin 2014, Ymddiswyddodd - Chwefror 2015)
Michael Sol Owen
Stephen Churchman (Penodwyd – Tachwedd 2014)
Sian Gwenllian (Penodwyd – Gorffennaf 2014, Ymddiswyddodd - Medi 2014)
John Wyn Williams (Penodwyd – Chwefror 2015)
Nerys Williams
Arwel Jones (Ymddiswyddodd – Medi 2014)
David Halsall
Anne Foote
Ioan Thomas (Penodwyd - Ionawr 2015, Ymddiswyddodd - Ionawr 2015)

Ysgrifennydd a Swyddfa Gofrestredig

Rhys Evans
Uned 6 & 7,
Llys Castan, Parc Menai,
Bangor, Gwynedd
LL57 4FH

Swyddogion Gweithredol

Ffrancon Williams – Prif Weithredwr
Mick Butler – Cyfarwyddwr Asedau a Buddsoddiadau (Ymddiswyddodd – Rhagfyr 2014)
Paul McGrady – Cyfarwyddwr Adnoddau (Cychwynodd – Mehefin 2015)
Ian Atkinson – Cyfarwyddwr Asedau ac Isadeiledd (Cychwynodd – Mehefin 2015)

Archwiliwr Allanol

Beever and Struthers
St George's House,
215-219 Chester Road,
Manceinion M15 4JE

Cyfreithwyr

Trowers & Hamlins
Sceptre Court,
40 Tower Hill,
Llundain EC3N 4DX

Bancwyr

Barclays Bank plc
3rd Floor,
Windsor Court,
3 Windsor Place,
Caerdydd
CF10 3ZL

Arianwyr

Barclays Bank plc
3rd Floor,
Windsor Court,
3 Windsor Place,
Caerdydd
CF10 3ZL

Ymgynghorwyr Ariannol

Sector Treasury Services Cyf
The Registry,
34 Beckenham Road,
Beckenham
BR3 4TU

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyfyngedig yn Gymdeithas Cydweithredol a Budd Cymunedol wedi ei gofrestru a rheolau elusennol, rhif Cymdeithas Cydweithredol a Budd Cymunedol:30776R. Rhif Landlord Cofrestredig Cymdeithasol L152

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Adroddiad y Bwrdd

Blwyddyn 01 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015

Mae Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf yn cyflwyno'r adroddiad hwn a'r datganiadau ariannol sydd wedi eu harchwilio ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015.

Yn yr adroddiad a'r Datganiadau Ariannol mae 'CCG' neu 'Sefydliad' wedi ei ddefnyddio i gyfeirio at Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf.

Prif Weithgareddau

Cymdeithas Dai Trosglwyddiad Stoc ar Raddfa Fawr yw CCG wedi ei ffurfio yn Ebrill 2010 yn dilyn trosglwyddo tua 6,300 o gartrefi o Cyngor Gwynedd. Mae CCG yn Gymdeithas Gydweithredol a Budd Cymunedol wedi ei chofrestru gyda rheolau elusennol. Mae CCG yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a chaiff ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru.

Prif bwrpas CCG yw darparu tai rhent fforddiadwy yng Ngwynedd i'r rhai sydd angen tai.

Ar y 31 Mawrth 2015 roedd gan CCG 6,265 eiddo ar draws Gwynedd gyda'r mwyafrif o'r rhain wedi eu lleoli yn ardal Arfon.

Er bod rhan helaeth o stoc CCG wedi ei leoli yn bennaf yn ninas Bangor a threfi mawr fel Caernarfon, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Bala a Thywyn mae nifer o'r eiddo wedi eu lledaenu ar draws y Sir mewn pentrefi ac ardaloedd gwledig.

O fewn y stoc mae yna tua 400 o gartrefi wedi eu dynodi fel Tai Gwarchod ar gyfer tenantiaid hŷn ac ar gyfer tenantiaid sy'n byw mewn eiddo o'r fath, cyflogir wardeniaid i sicrhau y gall tenantiaid fwynhau bod yn annibynnol.

Yn ystod y pum mlynedd gyntaf o weithredu, bu i CCG flaenoriaethu cyflawni addewidion a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig wrth drosglwyddo a gyda phum mlynedd wedi mynd heibio ers trosglwyddo, yn ystod 2014/15 ymdrechwyd i gwblhau'r addewidion. Cwblhawyd y rhan helaeth ohonynt erbyn diwedd Mawrth. Roedd y brif egwyddor o adnewyddu ein cartrefi i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2015 ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni gyda cham olaf y rhaglen i fod i gael ei chwblhau erbyn Medi 2015.

Amcanion a strategaethau

Yn ystod y flwyddyn ariannol, bu i'r Bwrdd rhoi sylw i'r bum mlynedd nesaf a cham nesaf yn natblygiad CCG. Mae'r cynllun a gytunwyd ym mis Chwefror 2015 yn rhoi cyfle i'r Bwrdd adlewyrchu ac edrych i'r dyfodol ac wrth wneud hyn adolygwyd Gweledigaeth a Gwerthoedd y sefydliad.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Y Weledigaeth newydd sydd wedi ei hadolygu yw;

Bod yn flaenllaw wrth ddarparu tai o safon - gan gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, a pharchu cymunedau.

Caiff y weledigaeth newydd ei hatgyfnerthu gan nifer o werthoedd craidd newydd;

- **Teg** - Gwneud penderfyniadau cyson a gwrthrychol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a pharchu amrywiaeth
- **Atebol** - Bod yn effeithiol a chymryd cyfrifoldeb am ein penderfyniadau a'r pethau rydym yn eu gwneud
- **Agored** - Bod yn onest a thryloyw yn bob dim 'rydym yn ei wneud
- **Arloesol** - Bod yn uchelgeisiol ac yn agored i syniadau a ffyrdd newydd o weithio
- **Cyfeillgar** - Bod yn hygyrch ac yn hawdd gweithio efo ni bob amser

Bydd y cynllun corfforaethol yn nodi strategaeth ar gyfer CCG am y 5 mlynedd nesaf a bydd yn pennu;

- y blaenoriaethau sydd i'w cyflawni gan y Bwrdd a staff,
- beth ydym yn buddsoddi ein hamser ac adnoddau yn ei ddarparu, a
- y fframwaith sy'n llywodraethu ein penderfyniadau a monitro ein cynnydd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys set o bedwar thema allweddol a phedwar amcan;

- **Cwsmeriaid** - Ein bwriad yw cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid gan eu hannog i gymryd rhan i siapio sut cânt eu dylunio a'u darparu
- **Datblygiad a thwf** – Tyfu fel busnes i sicrhau hyfywedd hir dymor
- **Asedau** - Rheoli ein hasedau i gynnal eu gwerth ac uchafu incwm a sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid
- **Cymunedau cynaliadwy** – Hybu Cymunedau Cynaliadwy drwy weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau effeithiol

Caiff y themâu a nodau hyn eu cefnogi gan 14 amcan manwl gyda'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn cael ei gefnogi gan 6 egwyddor wedi eu dylunio i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni;

- **Cyllid a Llywodraethu**
- **Pobl a Thechnoleg**
- **Cyfathrebu**
- **Partneriaeth**
- **Gwerth am arian**
- **Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA)**

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Bydd angen monitro cynnydd yn erbyn cyflawni'r cynllun drwy Fframwaith Rheoli Perfformiad adolygedig.

Adolygiad Ariannol

Asesiad Hyfywedd Ariannol

O dan adran 33A Deddf Tai 1996, mae gan Weinidog Cymru rym i reoleiddio LCC yng Nghymru o ran darpariaeth tai a materion sy'n ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol. Mae asesiadau rheolaethol a wneir yn dilyn dull o ganolbwyntio ar risg sy'n creu dyfarniad ar hyfywedd ariannol y Gymdeithas.

Yn dilyn adolygiad Gweinidog Cymru daethant i'r casgliad mai Dyfarniad Hyfywedd Ariannol CCG ar y 27 Chwefror 2015 oedd 'Pasio' gyda monitro rheolaethol agosach'. Caiff hwn ei ddiffinio fel;

"mae gan y Gymdeithas ddigon o adnoddau i fodloni ymrwymadau busnes ac ariannol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ond mae angen gwaith monitro rheoleiddiol manylach mewn un neu fwy o feysydd er mwyn sicrhau bod hyfywedd ariannol yn parhau i fod yn gadarn."

Eglurwyd dyfarniad y Rheoleiddiwr fel â ganlyn;

- *Mae'r Gymdeithas wedi paratoi'r rhagolygon ariannol 30 mlynedd gan ddefnyddio cyfres resymol o dybiaethau. Fodd bynnag, mae'r tîm rheoleiddio yn bryderus gan fod gan y Gymdeithas lai o staff ar lefel swyddogion gweithredol.*

*Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd dau Gyfarwyddwr newydd wedi eu penodi (Cyfarwyddwr Adnoddau a Chyfarwyddwr Asedau ac Isadeiledd) gyda'r ddau yn dechrau yn eu rôl yn gynnar ym mlwyddyn ariannol 2015/16.

- *Mae gan CCG ddigon o gyfleusterau benthycu gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath.*
- *Dengys rhagolwg 30 mlynedd y Gymdeithas y bydd y Gymdeithas yn gweithredu'n agos i'w chyfamodau yn y tymor byr i'r tymor canolig.*
- *Mae gan CCG ddigon o arian preifat i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn benthyciadau o'r fath.*

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Perfformiad Ariannol

Mae canlyniadau ariannol y bumed flwyddyn yn cymharu'n dda gyda phumed flwyddyn ein cynllun busnes gydag arian dros ben o weithgareddau cyffredin ar gyfer y flwyddyn yn £5.3m. Daw'r gweddill hwn ar ôl derbyn arian Dowry o £4.1m gan LIC.

Mae gan CCG asedau sefydlog pendant o £101.5m ar ddiwedd y flwyddyn sy'n gostau gwaith gwella wedi eu gwneud ers trosglwyddo, net grantiau cyfalaf sydd wedi eu derbyn. Roedd yna net atebolrwydd presennol o £11.24 ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd gwariant wedi cronni, £13.0m o fenthyciadau banc sy'n ad-daladwy yn ystod 2015/16 ac atebolrwydd ar gynllun pensiwn y llywodraeth leol i £2.8m. Roedd arian referniw ar ddiwedd y flwyddyn yn dod i £35.3m, a fydd yn cael ei gadw yn CCG i ariannu gwaith gwella yn y dyfodol.

Roedd balans benthyciadau yn £68.0m ar ddiwedd y flwyddyn a oedd yn cynnwys saith benthyciad sefydlog gyda chyfanswm o £55.0m sy'n ad-daladwy ym mis Hydref 2018 (£6m), Hydref 2021 (£5m), Ebrill 2031 (£5m), Ebrill 2032 (£8m) ac Ebrill 2034 (£15m) a £13.0 mewn benthyciadau cyfradd newidiol sy'n ad-daladwy yn ystod 2015/16. Cafodd y benthyciadau eu tynnu i lawr o dan gytundeb fenthyg gwerth £82.0m gyda Banc Barclays.

Asedau

Roedd yna fuddsoddiad sylweddol mewn gwaith gwella yn ystod flwyddyn gyda gwariant o £29.6m. Gyda £89.0m wedi ei wario yn ystod y pedair blynedd flaenorol mae'r gwariant yn cynrychioli tua 97% o'r gwariant a oedd wedi ei gynllunio ar gyfer pum mlynedd gyntaf gweithredu a oedd yn ofynnol er mwyn cyflawni rhaglen wella SATC cynhwysfawr CCG. Bydd y £3.6m sydd eto i'w wario er mwyn cyflawni SATC yn digwydd yn ystod chwe mis cyntaf 2015/16.

Rhenti

Bu i CCG weithredu polisi Llywodraeth Cymru ar Rent Tai Cymdeithasol yn 2014/15. Roedd hwn yn cymryd lle'r polisi gosod rhent blaenorol a oedd yn weithredol ers trosglwyddo'r stoc tai o'r Cyngor yn 2010. Mae'r polisi newydd yn pennu band rhent cyfartalog ar gyfer y Gymdeithas lle mae'n rhaid i wir rent cyfartalog ddisgyn o'i fewn. Mae cynyddiadau chwyddiant yn seiliedig ar Indecs Prisiau Defnyddwyr a 1.5% ond gall y Gymdeithas gynyddu rhent o £2 yr wythnos ar gyfer rhan o'r stoc neu'r stoc gyfan os caiff hyn ei weld yn ofynnol er mwyn ariannu ymrwymadau yn y cynllun busnes. Yn 2014/15, bu i wir rent cyfartalog godi o 5.36%. Roedd cyfanswm y rhent a godwyd yn ystod y flwyddyn yn dod i £25.26m.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Hawl i Brynu/Caffael

Mae'r Ddogfen Gynnig yn nodi bod tenantiaid sydd wedi trosglwyddo i CCG o Gyngor Gwynedd wedi cadw'r hawl i brynu eu cartrefi. Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd 8 o werthiannau hawl i brynu, ac mae'r elw wedi ei gynnwys yng nghyfrifon refeniw 2014/15.

Nid oes gan y rhai sydd wedi dod yn denantiaid ers trosglwyddo'r un hawl i brynu ag sydd gan denantiaid sydd wedi trosglwyddo ond efallai y byddai ganddynt yr hawl i gaffael eu cartref sy'n seiliedig ar grant yn hytrach na gostyngiad. Hyd yn hyn, nid yw CCG wedi gwerthu unrhyw dŷ o dan yr hawl i gaffael.

Adolygiad Weithredol

Gyda phumed ben-blwydd CCG ar y gorwel yn fuan wedi diwedd Blwyddyn Ariannol 2014/15 a bod y Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei ddatblygu, mae'r Bwrdd wedi cael cyfle i adlewyrchu ac edrych ar y llwyddiannau ers trosglwyddo.

Yn strategol, roedd 2014/15 yn garreg filltir allweddol; mae CCG wedi magu gwreiddiau a datblygu a bellach mae mewn sefyllfa gadarn i symud ymlaen i'r cam datblygu nesaf.

Llwyddiannau allweddol a blaenoriaethau gweithredol 2014/15

Yn ystod y flwyddyn yr egwyddorion gweithredol a phrif lwyddiannau oedd;

- Cefnogi tenantiaethau cynaliadwy gan ganolbwyntio ar sicrhau bod y sefydliad a'n tenantiaid mewn lle da i wynebu heriau wrth gynnal incwm rhent oherwydd newidiadau i Ddiwygio Lles. Mae'r newidiadau hyn yn her i denantiaid a CCG fel busnes, fodd bynnag, mae dull o weithio rhagweithiol wedi ein galluogi i reoli'r effaith ac mae dangosyddion perfformiad incwm rhent yn parhau i fod yn iach.
- Sicrhau achrediad OHSAS 18001 ar gyfer Iechyd a Diogelwch ac ISO 9001 a 14001 ar gyfer Systemau Ansawdd a'r Amgylchedd o ran system Iechyd, Diogelwch, Ansawdd ac Amgylchedd (IDAA) integredig wedi ei ddylunio i alluogi'r gymdeithas reoli materion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn well.
- Mae gweithio yn llwyddiannus gyda phartneriaid CCG wedi sicrhau cynnydd ar gyrraedd SATC erbyn 2015, ar y 31 Mawrth 2015 dyma'r nifer o waith sydd wedi ei gwblhau ers trosglwyddo;

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Elfen	Cyfanswm	Pasio	% Pasio	i gwblhau
Ystafell Ymolchi	6253	5989	95.78%	264
Drysau	6262	6057	96.73%	205
Trydanol	6253	5912	94.55%	341
Elfennau Allanol	5164	4063	78.68%	1101
Gwresogi	6253	5987	95.75%	266
Cegin	6253	5979	95.62%	274
To	5138	4583	89.20%	555
Ffenestri	5160	5157	99.94%	3

- Mae rhaglen wella SATC wedi parhau i ddarparu buddion economaidd lleol, ar ddiwedd Mawrth 2015 cyflogwyd 257 ar raglen wella SATC gyda 248 (96%) o ardal Gogledd Cymru, gan gynnwys 169 (66%) o Wynedd. Bu i'r Uned Recriwtio a Hyfforddiant wedi ei Dargedu barhau i weithio gyda'r contractwyr i sicrhau bod 24 o hyfforddai yn gweithio ar y rhaglen erbyn diwedd Mawrth 2015.
- Cynhyrchwyd Strategaeth Ddatblygu gyntaf CCG; mae'r strategaeth yn amlinellu'r dull o gychwyn ar raglen lle caiff twf ei reoli yn ofalus gyda'r bwriad o ddatblygu 225 o gartrefi newydd erbyn 2020 er mwyn ehangu'r dewis sydd at gael i gwrdd ag anghenion y gymuned. Caiff y Strategaeth ei gefnogi gan fframwaith clir ar gyfer rheoli risg a phroses gadarn ar gyfer cynllunio busnes a gallu ariannol.
- Ar ôl cymeradwyo'r Strategaeth Ddatblygu aethpwyd ati i'w gweithredu. Sicrhwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 18 o gartrefi newydd ar dri safle, dau ym Maesgeirchen ym Mangor ac un ym Mhwllheli. Ar ôl sicrhau Grantiau Tai Cymdeithasol drwy Cyngor Gwynedd, roedd gwaith ar yr eiddo i fod i gychwyn yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd. Bydd y cartrefi yn cyrraedd lefel effeithiolrwydd tri Cod Cartrefi Cynaliadwy a safonau Diogel Drwy Ddyluniad
- Cynhaliwyd y bedwerydd Arolwg Boddhad Tenantiaid, roedd y canlyniadau yn dangos gwelliant parhaus mewn rhai meysydd allweddol gan ganolbwyntio ar feysydd gwella. Eto, roedd y canlyniadau yn llunio rhan allweddol o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd ar gyfer ymarferiad Hunan Asesu sy'n cael ei rannu gyda'r Rheoleiddiwr.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

- Bu i'r Bwrdd unwaith eto dderbyn cydnabyddiaeth genedlaethol ar gyfer y model gaffael unigryw a ddatblygwyd fel rhan o'r rhaglen buddsoddi SATC yng Ngwobrau Caffael Cenedlaethol Cymru sy'n binacl Wythnos Caffael Cymru gan Sefydliad Astudiaethau Cystadleuaeth a Chaffael Prifysgol Bangor wedi ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwobrau yn cydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth mewn caffael cyhoeddus. Wedi ennill y Wobr Cyfraniad Pwysig llynedd, eleni bu i CCG ennill y wobwr Budd Cymunedol am ein gwaith o sicrhau bod cymunedau ar draws Gwynedd eleni yn buddio o waith sydd wedi ei wneud o dan y rhaglen fuddsoddi SATC.
- Bu i Gronfa Budd Cymunedol CCG cefnogi 29 sefydliad cymunedol i ddatblygu gwahanol brosiectau ar draws ardal Gwynedd - cyfanswm y grant a rannwyd oedd £212,875 sydd wedi bod o gymorth i sefydliadau ddenu buddsoddiad pellach o £2.6miliwn mewn ariannu cyfatebol ar gyfer prosiectau cymunedol.
- Mae CCG wedi parhau i gynhyrchu cyfres o bolisiau a gweithdrefnau strategol a gweithredol. Strategaethau allweddol a ddatblygwyd neu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn oedd Cyfathrebu, Caffael, Gwerth am Arian a Rheoli Tir.

Mae'r prif lwyddiannau hyn yn cyd fynd â Datblygiadau'r Dyfodol yn adroddiad y Bwrdd ar gyfer 2014/15.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd CCG yn ymdrechu i barhau gyda'r llwyddiannau ers trosglwyddo a chryfhau ymhellach fel sefydliad. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i gychwyn gweithredu cynllun corfforaethol pum mlynedd y sefydliad drwy broses o newid a rheoli rhaglen.

Trosolwg o Lywodraethu a Rheoleiddio

Asesiad Rheoleiddio Cymdeithas Dai (HARA)

Mae Rhan 2 y Mesur Tai (Cymru) 2011 (y Mesur) sy'n ddiwygiad Rhan 1 y Ddeddf Tai 1996 yn rhoi pwerau i Weinidog Cymru reoleiddio LCC yng Nghymru. Mae'r mesur yn rhoi mwy o bwerau rheoleiddiol ac ymyrryd i'r Gweinidog.

Yn ystod camau olaf y flwyddyn, bu i Dîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad Rheoleiddiol ar ran Gweinidogion Cymru. Bwriad yr Asesiad Rheoleiddiol yw darparu dealltwriaeth i denantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda rydym yn perfformio, ar amser penodol yn erbyn canlyniadau cyflawni sy'n ymwneud â:

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

- Gwasanaethau landlord
- Llywodraethol
- Rheolaeth Gyllidol

Cynhaliwyd yr Asesiad Rheoleiddiol yn unol â dull yn seiliedig ar risg sydd wedi ei nodi yn y 'Fframwaith Rheoleiddio' a chanllawiau cysylltiol '*Improving the implementation of the Regulatory Framework: a risk based approach to regulation*' a '*Sector risks facing housing associations in Wales*'.

Mae'r Rheoleiddiwr yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn drwy gyswllt rheoleiddiol parhaus gyda CCG ynghyd â gwybodaeth sydd wedi ei ddarparu er mwyn creu barn reoleiddiol.

Rhagwelir derbyn yr adrodd yn y flwyddyn ariannol newydd.

Siarter Llywodraethu Da a Chod Llywodraethiant

Bu i'r Bwrdd barhau i ddilyn Siarter Llywodraethu Da Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) sydd wedi ei ddatblygu i ddangos ymrwymiad gweledol i lywodraethu da.

Ym mis Chwefror 2015, bu i CCC mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru lansio'r Cod Llywodraethiant. Er bod y Cod yn cwmpasu llawer iawn o'r hyn oedd yn y Siarter Llywodraethu Da yn ei gynnwys, mae'n cynnwys set o egwyddorion penodol a darpariaethau manwl oddi tanynt; amcan y Cod yw annog pob Cymdeithas i sicrhau'r safonau uchaf un o Lywodraethu.

Bydd y Bwrdd, dros y flwyddyn ariannol nesaf yn ceisio dangos cydymffurfiaeth â'r Cod drwy gyflawni'r cynllun gweithredu Llywodraethol a fydd o gymorth pellach i sicrhau strwythurau Llywodraethol cadarn.

Strwythur Bwrdd a Phwyllgorau

Mae rheolau CCG yn nodi bod angen deuddeg aelod ar y Bwrdd sy'n cynnwys pedwar tenant, pedwar enwebai o Lywodraeth Leol a phedwar aelod annibynnol, maent i gyd yn Gyfarwyddwyr Anweithredol i CCG. Daw'r aelodau o gefndiroedd amrywiol gan ddod a phrofiadau proffesiynol, masnachol a lleol i CCG. Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli a'r Tîm Rheoli Gweithredol sydd wedi gwasanaethu yn ystod y flwyddyn wedi ei nodi ar dudalen 1.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar bolisi'r fframwaith a chyfeiriad strategol gyffredinol CCG, mae pedwar pwyllgor sydd â phwerau dirprwyedig wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau'r gallu i graffu materion gweithredol yn fanylach, mae strwythur presennol y pwyllgorau yn cynnwys:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cyllid
- Pwyllgor Gweithredol
- Pwyllgor Adnoddau Dynol & Chydnabyddiaethau

Caiff rôl a phwerau'r pwyllgorau eu diffinio yn y Rheolau Sefydlog.

Rhagwelir dros y flwyddyn ariannol nesaf y bydd y strwythur yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi gofynion CCG yn y dyfodol ac yn dangos ei fod yn cyd fynd â disgwyliadau sydd wedi eu hamlinellu yn y Cod Llywodraethiant.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae Deddf Cymdeithas Gydweithredol a Budd Cymunedol yn gofyn bod y Bwrdd yn paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi adlewyrchiad teg a gwir o sefyllfa'r Gymdeithas a'r hyn sydd gan y Gymdeithas yn warged am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn mae gofyn i'r Bwrdd:-

- Dewis polisiau cyfrifo addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a chall
- Nodi a yw safonau cyfrifo cymwys wedi eu dilyn
- Paratoi cyfrifon ar sail busnes gweithredol heblaw ei fod yn amhriodol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnod cywir o gyfrifo sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Gymdeithas a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddfau Cymdeithas Gydweithredol a Chymdeithas Budd Cymunedol a Deddfau Tai. I bennu sut y mae cyfansymiau'n cael eu cyflwyno o fewn eitemau yn y cyfrif incwm a gwariant a'r fantolen, mae'r Bwrdd wedi ystyried cynnwys y trafodyn neu drefniant sydd wedi ei adrodd yn unol ag egwyddorion neu ymarferion cyfrifo derbyniol cyffredinol. Maent hefyd yn gyfrifol am warchod asedau'r Gymdeithas a gan hynny cymryd camau priodol i atal ac adnabod twyll neu anghysondebau eraill drwy sefydlu a chynnal system reoli foddhaol dros gofnodion cyfrifo'r Gymdeithas, daliadau arian parod a'i holl dderbyniadau a thaliadau.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am strategaeth a fframwaith polisi'r Gymdeithas ond yn dirprwyo rheolaeth ddyddiol a gweithrediad i'r Prif Weithredwr ac uwch swyddogion eraill.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Fframwaith Datblygu'r Bwrdd

Mae Fframwaith Datblygu'r Bwrdd a fabwysiadwyd ym mis Mai 2013 yn cael ei weld fel elfen allweddol i alluogi'r Bwrdd barhau i ddarparu arweiniad strategol i'r sefydliad. Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod CCG yn ymateb i ddisgwyliadau cynyddol a roir ar aelodau yn y dyfodol drwy ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â recriwtio i'r Bwrdd, gwerthuso, hyfforddiant a chynllunio olyniaeth.

Aelodaeth Cyfranddalwyr

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan CCG gyfanswm o 48 o gyfranddalwyr a phob un ohonynt yn dal cyfran o £1 yn CCG. Gall cyfranddalwyr ddylanwadu gwneud penderfyniadau o fewn y Gymdeithas drwy'r eu hawl i bleidleisio yn y Cyfarfod Blyneddol; mae gan bob tenant yr hawl i wneud cais i fod yn gyfranddaliwr.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cael un gyfran ar ran enwebai'r Awdurdod Lleol sydd ar y Bwrdd gyda gweddill aelodau'r Bwrdd yn gyfranddalwyr. Nid yw unrhyw un o'r uwch swyddogion yn dal unrhyw ddiddordeb yng nghyfalaf cyfranddaliadau'r Gymdeithas.

Rheolaeth Fewnol

Cyfrifoldeb cyffredinol y Bwrdd yw sefydlu a chynnal yr holl system reoli fewnol ac adolygu pa mor effeithiol ydyw.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod na all unrhyw system reoli fewnol roi sicrwydd llwyr yn erbyn cam reoli materol neu gollod neu gael gwared â bob risg o anallu i gyrraedd amcanion busnes. Mae'r system reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli risgiau allweddol ac i roi sicrwydd rhesymol bod amcanion busnes sydd wedi eu cynllunio a chanlyniadau yn cael eu cyrraedd. Mae hefyd yn bodoli er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol ynglŷn â pharatoi a dibynadwyedd ynglŷn â gwybodaeth ariannol a gweithredol a gwarchod asedau a diddordebau'r gymdeithas.

Wrth gwrdd â'i gyfrifoldebau, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull yn seiliedig ar risg gyda rheolaethau mewnol sydd wedi eu mewnosod o fewn y broses rheoli a llywodraethu arferol. Mae'r dull hwn yn cynnwys gwerthusiad rheolaidd o natur a maint risgiau y mae'r gymdeithas yn agored iddynt ac maent yn cyd fynd â chylchlythyr tai LIC RSL02/10: 'Rheoliadau Mewnol ac Adrodd.'

Mae'r broses sydd wedi ei mabwysiadu gan y Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol ynghyd â rhai o'r prif elfennau'r fframwaith reoli yn cynnwys:

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Adnabod a gwerthuso risgiau allweddol:

Mae Fframwaith Rheoli Risg CCG sydd wedi ei gytuno gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol yn amlinellu'r prosesau ynghlwm â Rheoli Risg yn amlinellu adnabod, dadansoddi a champau sgorio ynghyd â sut mae risgiau yn cael eu monitro yn y sefydliad. Mae'r fframwaith yn cyfeirio at y tri lefel o risg, bod yn strategol, risgiau corfforaethol ac yn seiliedig ar y gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau dull cyson o sgorio, mae'r matrices wedi ei ddatblygu fel rhan o'r fframwaith sy'n darparu offer cynhwysfawr ar gyfer asesu tebygolrwydd o risg yn codi'i ben ynghyd ag effaith risg o'r fath. Caiff y matrices sgorio effaith ei rannu i dri maes er mwyn sicrhau eglurder sef cost, amser ac effaith ansawdd.

Mae'r strategaeth yn rhoi darpariaeth ar gyfer adrodd risgiau yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio.

Caiff yr archwilio mewnol ei ddarparu gan gwmni o gyfrifwyr annibynnol ac maent yn dilyn rhaglen archwilio yn seiliedig ar risg ac maent yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio.

Gweithdrefnau rheoli cyffredinol:

Mae'r Bwrdd yn cadw'r cyfrifoldeb am ystod ddiffiniedig o faterion yn ymwneud â materion strategol, gweithredol a chyllidol a materion cydymffurfio. Mae polisiau a gweithdrefnau yn ymdrin â materion fel awdurdod dirprwyedig, rhannu dyletswyddau, cyfrifo, rheolaeth trysorlys, iechyd a diogelwch, diogelu data ac ased ac adnabod ac atal twyll.

Systemau gwybodaeth ac adrodd am gyllid:

Mae gweithdrefnau adrodd am gyllid yn cynnwys creu cyllidebau manwl ar gyfer y flwyddyn i ddod, cynhyrchu cyfrifon rheoli manwl yn fisol a rhagolygon ar gyfer gwarged y flwyddyn ariannol ar gyfer gweddill y blynyddoedd. Caiff y rhain eu hadolygu yn fanwl gan y cyfarwyddwyr gweithredol a chânt eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid yn chwarterol (a chant eu gyrru ymlaen i'n harianwyr fel rhan o'r cytundeb fenthyg). Mae'r Pwyllgor Gweithredol hefyd yn adolygu dangosyddion perfformiad allweddol yn rheolaidd i asesu cynnydd tuag at gyrraedd yr amcanion busnes allweddol, targedau a chanlyniadau.

Monitro a gweithred cywiro:

Mae'r broses o reolwyr yn adrodd yn rheolaidd ar faterion rheoli yn rhoi sicrwydd i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefn gadarn i sicrhau bod gweithred gywiro yn cael ei chymryd sy'n ymwneud ag unrhyw faterion rheoli mawr, yn enwedig y rhai a all gael effaith faterol ar ddatganiadau cyllidol a darparu ein gwasanaethau.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Mae'r fframwaith reolaeth fewnol ar broses rheoli risg yn ddarostyngedig i adolygiad rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried rheolaeth fewnol a risg ym mhob un o'i gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, a bydd yn adolygu nifer o fapiau risg yn rheolaidd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol ac mae wedi ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen i gynnal effeithiolrwydd rheolaeth risg a'r broses reoli.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau fod yna broses barhaus ar gyfer adnabod a rheoli risgiau sylweddol sy'n wynebu'r Gymdeithas. Mae'r broses hon wedi bod yn ei lle ac yn cael ei hadolygu drwy gydol y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a chaiff ei adolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd.

Datganiad Cydymffurfio

Mae'r Adolygiad Gweithredol a Cyllidol wedi cael ei baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Para 33 a 34 yn SORP 2010 sydd wedi ei ddiweddarau ar gyfer darparwyr cofrestredig.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau Bwrdd

Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol sy'n cynnwys y cyfrif incwm a gwariant, datganiad o gyfanswm arian a diffygion sydd wedi ei hadnabod, y fantolen, datganiad llif arian parod a'r nodiadau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi o dan gonfensiwn cost hanesyddol a'r polisiau cyfrifo sydd wedi eu nodi ynddynt.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol wedi ei ddefnyddio wrth eu paratoi yn ôl y gyfraith ac yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Cyfrifo Derbyniadwy Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Caiff yr adroddiad hwn ei baratoi ar gyfer aelodau'r Gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 87 o'r Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud fel y gallwn gyflwyno i aelodau'r Gymdeithas y materion hynny y mae gofyn i ni eu hamlygu iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall. Cyn belled ag y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu, nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am y Gymdeithas ac aelodau'r Gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn neu am y farn yr ydym wedi ei greu.

Cyfrifoldebau Priodol y Bwrdd a'r Archwilydd

Fel caiff ei egluro yn ehangach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd ar dudalen 8, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi barn wir a theg. Ein cyfrifoldeb yw archwilio a mynegi ein barn ar y datganiadau ariannol yn unol ag unrhyw gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Ryngwladol (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn gofyn i ni gydymffurfio gyda Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

Sgôp archwilio o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y ffigyrau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gam ddatganiadau materol, un ai drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Gymdeithas a'u bod wedi eu cymhwysu yn gyson a'u datgelu yn ddigonol; rhesymoldeb rhagamcanion cyfrifo sylweddol a wneir gan y Bwrdd; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rydym yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth sydd ddim yn ariannol yn yr Adroddiad Bwrdd er mwyn adnabod anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol sydd wedi eu harchwilio. Os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau materol neu anghysondebau rydym yn ystyried y goblygiad wrth lunio ein hadroddiad.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn wir a theg o sefyllfa'r Gymdeithas ar y 31 Mawrth 2015 ac o'i incwm a'i wariant am y cyfnod a ddaeth i ben; a
- Wedi eu paratoi'n briodol yn unol â pholisi cyfrifo cydnabyddedig y Deyrnas Unedig.
- wedi eu paratoi yn unol â'r Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, y Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 a Gofynion Cyfrifo ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 2009.

Materion lle mae angen i ni adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd am y materion canlynol lle mae'r Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad oes yna system reoli dros drafodion wedi ei gynnal; neu
- nad yw'r gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd fynd a'r llyfr cyfrifon; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad yr ydym ei angen ar gyfer ein harchwiliad.

Beever and Struthers

Chartered Accountants and Statutory Auditors

St George's House

215 – 219 Chester Road

Manchester

M15 4JE

Dyddiad 16 Medi 2015

